CRONFA CYMUNEDAU ERYRI
ERYRI COMMUNITIES FUND

# CANLLAWIAU AR GEISIADAU CRONFA CYMUNEDAU ERYRI 2025-26



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

eryri.llyw.cymru

# Cyflwyniad

Mae Cronfa Cymunedau Eryri (CCE) yn gronfa fydd yn ymateb i gynorthwyo cymunedau o fewn ac o amgylch Eryri i gynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr ac adeiladu cymunedau cydnerth.

Sefydlwyd CCE drwy gytundeb rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a Llywodraeth Cymru, gyda APCE yn gweinyddu'r gronfa hon.

**Mae CCE yn benodol ar gyfer prosiectau cyfalaf yn unig o £5000-£25,000. Mae swm o £100,000 ar gael yn y flwyddyn ariannol 2025-26 ar gyfer prosiectau datgarboneiddio .**

Bydd y gronfa gyfalaf ar gael i gymunedau lleol a grwpiau/ cymdeithasau gwirfoddol at ddibenion cydnerthedd economaidd-gymdeithasol.

# Pa fath o brosiect all gael ei ariannu?

**Prosiectau cyfalaf sy'n cynllunio gwariant sydd ar gyfer darparu, caffael a/neu wella asedau ffisegol neu sefydlog tymor hir e.e. adeiladau neu dir. e.e.**

- Prosiectau effeithlonrwydd ynni / carbon isel/ datgarboneiddio sydd o fudd i'r gymuned ehangach (e.e. newid llifoleuadau ar gae chwaraeon i LED, solar PV ar gyfer neuadd gymunedol, cynlluniau trafnidiaeth gymunedol)
- Prosiectau sy'n gysylltiedig â lleihau gwastraff bwyd ac annog cadwyn gyflenwi bwyd/diod mwy lleol
- Prosiectau twristiaeth cynaliadwy, teithio llesol neu brosiectau sy'n annog trosglwyddo i drydaneiddio cerbydau preifat
- Prosiectau sy'n datblygu a chefnogi mentrau cymdeithasol (e.e. siop gymunedol, tafarn gymunedol) ar yr amod eu bod yn cael eu rhedeg fel rhai dielw, neu,
- Datblygu a chefnogi partneriaethau busnes lleol (e.e. grwpiau twristiaeth, grwpiau amaethyddol, cynhyrchwyr bwyd lleol) ar yr amod y gallant ddangos budd amlwg i'r gymuned ehangach

# Ni fydd prosiectau yn gymwys i ymgeisio os yw'r:

- Cyllid yn ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau a achoswyd yn barod
- Prosiectau yn hyrwyddo crefydd neu'n cefnogi ymgyrch neu achos pleidiol gwleidyddol neu a allai ddwyn anfri ar y gronfa neu'r cyllidwr
- Grantiau i fusnesau masnachol preifat
- Ceisiadau prosiect am gyllid refeniw yn cynnwys costau fel llogi gofod cynadleddau, biliau ynni, costau argraffu neu eitemau hyrwyddo.

# Trothwyon grant

Bydd y grantiau'n cael eu gweinyddu ar sail:

- ffurflen gais am grant o £5,000 i £25,000.
- Bydd angen arian cyfatebol o 5% (gall fod yn refeniw, amser gwirfoddolwyr trwy garedigrwydd, neu'n ffynhonnell grant arall er enghraifft).
- Dim ond costau cyfalaf gaiff ei ystyried (nid ceisiadau am refeniw).
- Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd gronfa grant ar gyfer prosiectau gwirfoddol a chymunedol bach o dan £500 – mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

# Yr ardal fydd yn cael budd

Bydd yr ardal fydd yn cael budd yn canolbwyntio ar gymunedau Eryri, gan mai nhw fydd y prif fuddiolwyr. Gellir cefnogi prosiectau y tu allan i'r wardiau; fodd bynnag, byddai'n ofynnol i'r rhai yn yr ardaloedd y tu allan ddangos yn glir sut y gallent fod o fudd i gymunedau Eryri.

# Pwy all wneud cais?

Gall y mathau canlynol o sefydliadau wneud cais am arian ar yr amod bod eu prosiectau'n fanteisiol iawn i'r wardiau cymunedol y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol:

- Grwpiau gwirfoddol, cymunedol
- Cynghorau Cymuned / Cynghorau Tref
- Mentrau cymdeithasol ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail ddielw (gan gynnwys undebau credyd)
- Sefydliadau cydweithredol
- Cwmnïau cymdeithasol
- Mentrau sy'n eiddo i'r gymuned
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- Cwmnïau budd cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu
- Elusennau
- Sefydliadau'r trydydd sector.

Rhaid i bob ymgeisydd gael cyfansoddiad a chyfrif banc o leiaf.

Gall sefydliad sydd wedi'i leoli y tu allan i'r ardal fudd wneud cais, cyn belled â bod;

- y prosiect / gweithgaredd wedi'i seilio'n gadarn o fewn yr ardal fudd
- manteision y prosiect / gweithgaredd yn cronni i'r ardal fudd
- gan y sefydliad gysylltiadau cadarn a hanes o weithio gyda chymunedau yn yr ardal fudd.

## Y broses o gymeradwyo ceisiadau

Bydd ceisiadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu'n fewnol gan staff y Parc Cenedlaethol a bydd panel sy'n cynnwys Prif Weithredwr yr Awdurdod, y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a Chynllunio yn penderfynu ar geisiadau.

O bryd i'w gilydd, gall y broses gymryd peth amser yn dibynnu ar werth a chymhlethdod y cais. Cadwch hyn mewn cof wrth wneud cais am gyllid gan na allwn gefnogi prosiectau sydd eisoes wedi dechrau. Os yw'n llwyddiannus, rhaid gwario'r grant a'i hawlio erbyn mis Mawrth 2026.

**I'w nodi:** Pan fyddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn danfon e-bost i gadarnhau hyn o fewn 24 awr. Os nad ydych yn derbyn yr e-bost hwn, oes modd cysylltu â'n Swyddog Ymgysylltu Cymunedol, Gwenno Jones yn uniongyrchol - gwenno.jones@eryri.llyw.cymru

## Monitro prosiectau

Petai'r cais yn llwyddiannus, caiff ymweliadau monitro eu trefnu rhyngoch chi â'r Swyddog Prosiect CCE. Dylid anfon copïau o unrhyw ddeunydd hyrwyddol, datganiadau i'r wasg a/neu unrhyw ddogfennau perthynol eraill a gynhyrchwyd fel rhan o'ch prosiect at y Swyddog Prosiect CCE fel rhan o'r broses monitro.

## Cyflwyno Cais am Arian Cyllido CCE

Wrth baratoi cais am Arian Cyllido CCE, bydd rhaid i chi ddangos sut y byddwch yn cydymffurfio â'r amodau cyffredinol y manylir arnynt isod. Petai eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn asesu sut y cydymffurfir â'r amodau hynny fel rhan o'r broses monitro gyffredinol ar gyfer Cronfa CCE.

## Amodau Cyffredinol

1. Dylai unrhyw wasanaethau neu weithgareddau wyneb yn wyneb y bydd y cyhoedd yn rhan ohonynt, fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
2. Dylai unrhyw ddeunydd argraffedig gael ei gynhyrchu'n gwbl ddwyieithog (mae hynny'n cynnwys taflenni, llyfrynnau, arwyddion, posteri, deunyddiau marchnata, cyhoeddusrwydd ac arddangos).
3. Rhaid i unrhyw dudalennau ar y we fydd yn cael eu hariannu gan y grant gael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.
4. Dylai unrhyw gyhoeddiadau ynglŷn â'r gronfa gydnabod cyfraniad APCE a Llywodraeth Cymru.
5. Dylai'r prosiect fod wedi'i gwblhau a chyllid wedi'i hawlio erbyn 1/3/26.
6. Mae'n rhaid bod y prosiect wedi derbyn caniatad cynllunio (os yn berthnasol) cyn y bod cynnig ffurfiol o arian cronfa yn bosib.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag eithriadau a chanllawiau ar y mater hwn, cysylltwch â'r Swyddog Prosiect CCE.




© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

## Arian Cyllido CCE a'r Iaith Gymraeg

Mae'r iaith Gymraeg, fel un o ieithoedd byw hynaf Ewrop yn ganolog i dreftadaeth ddiwylliannol Eryri. Heddiw, y gornel hon o Gymru sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y wlad. Yn anffodus, nid yw hyn yn golygu bod yr iaith yn ffynnu, gan fod cyfrifiad 2021 wedi dangos i ni fod y niferoedd wedi gostwng.

Mae bywiogrwydd yr iaith Gymraeg wedi ei adnabod fel nodwedd unigryw Eryri, ac mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i'w diogelu yn ogystalâ'i hyrwyddo drwy bob agwedd ar ei waith (fel y diffinnir gan bwrpasau statudol Awdurdod y Parc Cenedlaethol). Felly, pan fyddwn yn dyfarnu grantiau trwy Gronfa CCE, gallwn gynnwys amodau yn gysylltiedig â'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

## Ffynonellau Cyngor ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg:

- Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
- Mentrau iaith lleol – maent yn darparu gwasanaeth cyfieithu ynghyd â chyngor.
- Menter Iaith Conwy
- Menter Iaith Gwynedd
- Gwasanaeth cyfieithu Llywodraeth Cymru: rhad ac am ddim hyd at 500 gair y mis
- Gellir dod o hyd i wybodaeth am gyfleusterau cyfieithu / cyfieithu ar y pryd ynghyd â gwybodaeth bellach ar wefan Cyfieithwyr Cymru




# Ôl-Troed Carbon (i'w ystyried yng nghyd-destun datgarboneiddio)

Mesur o'r effaith y mae gweithgareddau dynol yn eu cael ar yr hinsawdd yn nhermau swm y nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yw ôl-troed carbon. Mae'n perthyn yn uniongyrchol i ba effaith amgylcheddol yr ydym yn eu hachosi trwy swm yr adnoddau naturiol yr ydym yn eu defnyddio. Cydnabyddir bod carbon deuocsid yn nwy tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chynhesu bydol a newid hinsawdd.

Caiff ôl-troed carbon ei fynegi mewn tunelli (neu kg) o garbon deuocsid neu dunelli o garbon a ollyngir, fel arfer ar sail flynyddol. Trwy gyfrifo eich ôl-troed carbon ag offer megis cyfrifianellau carbon, fe gewch well syniad ynglŷn â beth yw'r effaith unigol a pha rannau o'ch bywyd y mae angen talu'r sylw mwyaf iddynt.

Rhaid i holl brosiectau CCE ddangos ymwybyddiaeth o'u ôl-troed carbon a'u hymdrechion i leihau eu heffaith ar yr hinsawdd. Gellir gwneud hynny trwy gymryd camau syml megis diffodd goleuadau ac offer trydanol pan na fyddant yn cael eu defnyddio, lleihau faint o bapur a ddefnyddir, defnyddio deunydd inswleiddio gwell a lleihau faint o deithiau a wneir mewn cerbydau.

Mae yna nifer o sefydliadau sy'n darparu cyfrifianellau carbon ynghyd â chyngor ynglŷn â sut i leihau gollyngiadau carbon megis: yr Ymddiriedolaeth Carbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, y Ganolfan Dechnoleg Amgen ayb. Gellir dod o hyd i'r manylion cyswllt yn y rhan Cysylltiadau Defnyddiol isod.

# Cysylltiadau Defnyddiol

- Cronfa Gymunedol Loteri Gendelaethol – gwybodaeth ynglŷn ag argaeledd grantiau'r Gronfa Loteri Fawr, ynghyd â chymhwystra a sut i ymgeisio amdanynt

- Yr Ymddiriedolaeth Carbon – gwybodaeth a chyngor ynglŷn â sut i leihau gollyngiadau carbon ayyb

- Canolfan Dechnoleg Amgen – gwybodaeth a chyngor ar amrediad eang o faterion megis ynni cynaladwy ayyb

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - grantiau, caniatâd cynllunio, polisïau lleol, gwybodaeth gyffredinol am ardal Conwy

- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy – cynnig gwybodaeth a chyngor ar gyfer grwpiau gwirfoddol yn ardal Conwy gan gynnwys ffynonellau arian cyfatebol, hyfforddiant, materion cyfreithiol ayb

- Comic Relief – gwybodaeth ynglŷn â grantiau Comic Relief, cymhwystra a sut i ymgeisio

- Cyfoeth Naturiol Cymru – cyngor a gwybodaeth gyffredinol ac arbenigol ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chefn gwlad a'r amgylchedd ynghyd â ffynonellau posibl eraill o arian cyfatebol

- Ymddiriedolaeth Arbed Ynni – cyngor a gwybodaeth ynglŷn â sut i leihau defnydd ynni

- Cyngor Sir Gwynedd – grantiau, caniatâd cynllunio, polisïau lleol, gwybodaeth gyffredinol ynglŷn ag ardal Gwynedd

- Cronfa Dreftadaeth y Loteri – grantiau loteri ar gyfer prosiectau treftadaeth

- Mantell Gwynedd – cynnig gwybodaeth a chyngor ar gyfer grwpiau gwirfoddol yn ardal Gwynedd gan gynnwys ffynonellau arian cyfatebol, hyfforddiant, materion cyfreithiol ayyb

# Y Ffurflen Gais - Pethau i'w cofio

## Manylion Cyllideb y Prosiect

Yr egwyddor gyffredinol ar gyfer cwblhau'r rhan hon yw – gorau oll po fwyaf o fanylion y gallwch eu cynnwys!

Prosiectau cyfalaf yn unig a ariennir gan CCE.

Os ydych yn ymgeisio am arian cyllido tuag at brosiect sy'n rhan hanfodol o fenter fwy - gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y costau ar gyfer y fenter gyfan. Bydd hynny'n helpu i ni gael darlun cyflawn o'r holl fenter, ynghyd â'r holl ffynonellau ariannu.

Rhestrwch yn fanwl unrhyw arian cyfatebol/deunyddiau mewn caredigrwydd.

## Adran 4 – Rhestr Wirio a Llofnodi

Byddwn angen amrywiol ddarnau eraill o wybodaeth gefnogol fel rhestrir yn yr Adran 4 ar y ffurflen gais.
Darllenwch y rhestr hon yn ofalus (hefyd y Rhestr Wirio Gyffredinol ar y diwedd), a gwneud yn siwr eich bod yn cynnwys popeth gyda'ch cais.

**Pwysig:** Darllenwch y cyngor ar ein gwefan sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio cyn cyflwyno'ch cais os gwelwch yn dda -

https://cynllunio.eryri.llyw.cymru/"Cynllunio a Datblygu - Parc Cenedlaethol Eryri

## Llofnod y person(au) sy'n cwblhau'r ffurflen

Pan fyddwch chi'n arwyddo'r ffurflen, rydych yn tystio fod aelodau eraill o'ch grŵp ac/ neu bartneriaid eich prosiect, i gyd yn gwybod am y cais ac yn cytuno'n llawn ag o. Mae hyn yn golygu eich bod wedi trafod y cynigion mewn cyfarfodydd, lle fydd penderfyniadau a chymeradwyaeth y grŵp wedi cael ei gofnodi. Byddwch yn cadarnhau hefyd fod y wybodaeth a ddarperir gennych yn wir ac yn fanwl hyd y gwyddoch chi.